## Gofynion Tystiolaeth ar gyfer Cael Cymeradwyaeth i Gynnal Cyrsiau'r Cynllun Adsefydlu Gyrwyr sy'n Yfed yng Nghymru

Rhaid i ymgeisydd sydd am gael cymeradwyaeth i gynnal cwrs o dan y Cynllun Adsefydlu Gyrwyr sy'n Yfed (y Cynllun) ddarparu tystiolaeth i ddangos sut mae'n bodloni'r meini prawf penodedig.

Bydd y penderfyniad cychwynnol ar b'un a ddylid cymeradwyo cwrs ai peidio yn cael ei wneud ar sail dadansoddiad desg o'r dystiolaeth a ddarperir gan yr ymgeisydd. Yn benodol, mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i ddangos sut maent yn bodloni'r meini prawf penodedig a ddangosir isod.

Bydd y dystiolaeth sydd ei hangen i gymeradwyo cwrs o dan y Cynllun yn cynnwys y meysydd canlynol sy'n adlewyrchu trefn y ffurflen gais (mae canllawiau ychwanegol wedi'u hatodi):

- Ymgeisydd ac ardaloedd
- Cynnwys y cwrs a threfniadau darparu'r cwrs
- Cyfleusterau a hyfforddwyr
- Trefniadau gweinyddol

Fel rhan o'r amodau cymeradwyo, rhaid i ymgeisydd gytuno i wneud y canlynol:

- rhoi data i Lywodraeth Cymru yn rheolaidd er mwyn gallu rheoli cydymffurfiaeth ac ansawdd yn barhaus ar sail risg
- rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau i'r cais ar adeg cymeradwyo'r cwrs e.e.
  - Statws cyfreithiol y sefydliad sy'n gwneud y cais
  - Y prif reolwyr a’r trefniadau darparu o fewn y sefydliad
  - Statws ariannol neu gyfreithiol unrhyw rai o'r rheolwyr a enwebwyd o fewn y sefydliad
  - Cymwysterau'r staff darparu, e.e. pan fo staff yn cael hyfforddiant ond nid ydynt yn gwbl gymwys eto
- datgan yn ffurfiol ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol arall e.e. Iechyd a Diogelwch, Cyfraith Cyflogaeth, y Ddeddf Diogelu Data
- cydweithredu yn ystod gweithgareddau sicrhau ansawdd a chydymffurfiaeth rheolaidd fel y nodir yn y Canllawiau ar Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfiaeth yng Nghymru.

| | |
|---|---|
| **Meini Prawf Cymeradwyo** | **Y Dystiolaeth sydd ei Hangen** |
| **Ymgeisydd ac Ardaloedd (fel y nodir yn Adran 1 o'r Ffurflen Gais)** | |
| Mae'r adran hon o'r ffurflen gais yn hunanesboniadol i raddau helaeth, ond byddem yn eich cynghori i gynnwys y canlynol:<br>• Manylion am y personél rheoli allweddol o fewn y sefydliad sy'n gwneud y cais, sy'n ddigonol i fodloni Llywodraeth Cymru nad oes unrhyw faterion eraill a allai eu datgymhwyso rhag bod yn bersonau priodol sy'n gyfrifol am gwrs cymeradwy o dan y Cynllun<br><br>• Manylion o leiaf un uwch reolwr sy'n byw yn y DU ac a fydd yn brif bwynt cyswllt o ddydd i ddydd at ddibenion rheoli'r rhaglen. | Byddai tystiolaeth briodol yn cynnwys:<br><br>Enw cofrestredig y sefydliad – fel y gellir cynnal chwiliadau yn Nhŷ'r Cwmnïau a/neu i gadarnhau ffurf y sefydliad.<br><br>Diagram o strwythur y sefydliad e.e. rhiant gwmni, unrhyw gwmnïau eraill yn y grŵp – er mwyn nodi unrhyw wrthdaro buddiannau ac ati.<br><br>Diagram o'r strwythur mewnol e.e. y pencadlys ac is-swyddfeydd, strwythur is-adrannol ac ati – er mwyn sicrhau eglurder ynghylch trefniadau adrodd e.e. y weithdrefn gwyno ac ati.<br><br>Enwau'r Perchennog, Cyfarwyddwyr, Prif Swyddogion – yn dibynnu ar strwythur y sefydliad gan gynnwys, yn benodol, yr unigolyn (unigolion) sy'n atebol i Lywodraeth Cymru am berfformiad y sefydliad sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth.<br><br>Diddordebau busnes arall y Perchennog, Cyfarwyddwyr, Prif Swyddogion – er mwyn nodi gwrthdaro buddiannau a chynnal chwiliadau priodol yn Nhŷ'r Cwmnïau ac ati. |

| | |
|---|---|
| | |
| **Cynnwys y Cwrs a'r Trefniadau ar gyfer ei ddarparu (fel y nodir yn Adran 2 o'r Ffurflen Gais)** | |
| Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:<br><br>2.1 Mae cynnwys a deunyddiau dysgu'r cwrs yn cysylltu'n glir â deilliant dymunol Maes Llafur presennol y Cynllun a osodwyd gan yr Asiantaeth Safonau Gyrru (https://www.gov.uk/drink-drive-rehabilitation-syllabus) ac, yn y pen draw, Safon Gyrru Genedlaethol (Categori B) yr Asiantaeth Safonau Gyrru.<br><br>Mae cynnwys y cwrs yn cysylltu â'r modelau damcaniaethol a phroffesiynol a'r egwyddorion dysgu oedolion sy'n sail i'r Maes Llafur[1].<br><br>Mae'r cwrs, gan gynnwys y trefniadau darparu a gweinyddu, yn gyson â'r canllawiau ar gyrsiau'r Cynllun a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. | Byddai tystiolaeth briodol yn cynnwys:<br><br>Deunyddiau cyfarwyddyd a roddir i hyfforddwyr – dylai'r deunyddiau hyn nodi amcanion cyffredinol y cwrs yn glir h.y. hwyluso a chefnogi newid mewn ymddygiad o ran defnyddio alcohol mewn perthynas â gyrru. Dylai gydnabod egwyddorion cyffredinol model newid DiClemente.<br>(Mae'n annhebygol y bydd deunyddiau sy'n canolbwyntio ar 'wella technegau gyrru' neu sy'n rhoi pwyslais ar ddatblygu teimladau o euogrwydd ac ati yn y cleientiaid yn dderbyniol.)<br><br>Amlinelliad o'r cwrs, 'cynlluniau gwersi', amserlenni ac ati a roddir i fyfyrwyr – dylai'r darparwr allu rhoi syniad clir i bob cleient o'r hyn a gaiff ei gynnwys yn y cwrs a phryd y gwneir hynny'n fras. (Gall darparwyr amrywio'r hyn a gyflwynir ganddynt os yw'n briodol gwneud hynny). Dylai'r amlinelliadau o gyrsiau ac ati adlewyrchu'n fras y modelau newid ymddygiad sy'n sail i'r Maes Llafur.<br><br>Cyfeiriadau at y ffordd mae'r sefydliad yn bodloni'r Canllawiau ar gyfer Darparwyr Cyrsiau a Llysoedd – dylid cynnwys polisïau, prosesau a gweithdrefnau perthnasol, yn ogystal â syniad clir o'r dystiolaeth a gaiff ei darparu i'w harchwilio er mwyn dangos y defnyddir ac y cydymffurfir â'r canllawiau. |

| | |
|---|---|
| | Noder: dylai cynnwys y cwrs, deunyddiau dysgu ac amlinelliadau/cynlluniau gwersi gyd-fynd ag amcanion safon gyrru'n ddiogel ac yn gyfrifol (Safe and Responsible Driving Standard™) yr Asiantaeth Safonau Gyrru i'r graddau y byddai'n rhesymol gweld deilliannau dysgu dymunol cyffredinol y Safonau'n cael eu hadlewyrchu yn neunyddiau dysgu'r cwrs. Yn amlwg, byddem yn herio unrhyw gynnwys sy'n gwrthdaro ag amcanion y Safon. |
| 2.2 Maent wedi datblygu deunyddiau dysgu priodol ar gyfer y cwrs a gaiff eu darparu i'r cyfranogwyr.<br><br>Mae'r cwrs y maent yn bwriadu ei ddarparu yn gallu ymateb yn briodol, mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y cleient, i anghenion dysgu troseddwyr:<br>• gan ystyried arddulliau dysgu gwahanol a lefelau gallu amrywiol<br>• waeth beth fo'u rhyw, hil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, gan gyfeirio'n benodol at y grwpiau hynny o fewn poblogaeth yrru categori B sy'n cael eu diffinio fel rhai 'sy'n agored i niwed' (17-18 oed[2]), yr henoed[3] a'r rhai sydd ag anabledd dysgu neu anableddau corfforol cydnabyddedig). | Samplau o ddeunyddiau dysgu, gan gynnwys unrhyw gopïau caled, deunyddiau amlgyfrwng a deunyddiau ar-lein sy'n cael eu defnyddio – yn amlwg, gall darparwyr ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau er mwyn helpu i ddarparu eu cyrsiau, gan gynnwys dulliau electronig. Byddem yn disgwyl gweld sampl o'u deunyddiau er mwyn:<br>a. cadarnhau bod y negeseuon sy'n cael eu cyflwyno yn gyson â'u strategaeth eu hunain a'r Maes Llafur;<br>b. cadarnhau eu bod o ansawdd priodol;<br>c. cadarnhau eu bod yn ystyriol o anghenion unigolion y gallai fod ganddynt arddulliau dysgu arbennig neu anawsterau dysgu penodol ac ati. |
| 2.3 Ceir amlinelliadau o'r deunyddiau ychwanegol/amgen sydd ar gael i'r rhai â gofynion arbennig. | Nid yw'n rhesymol i ni ddisgwyl i ddarparwyr gyflwyno'r holl ddeunyddiau y gallai fod angen iddynt eu llunio ar gyfer y rhai â gofynion arbennig. Fodd bynnag, byddai samplau'n ddefnyddiol a byddem hefyd yn disgwyl gweld unrhyw wybodaeth y maent yn bwriadu ei rhoi i fyfyrwyr er mwyn egluro sut y gallant gael |

| | |
|---|---|
| | darpariaeth ar gyfer unrhyw anghenion arbennig. |
| 2.4 Mae’r cwrs a deunyddiau'r cwrs ar gael yn Gymraeg. | Nid oes angen i ni weld y deunyddiau Cymraeg. Fodd bynnag, bydd angen samplau, neu esboniad o'r ffordd y caiff cyrsiau Cymraeg eu darparu. |
| 2.5 Mae’r cwrs ar gael ar draws y rhanbarth ac ar gael i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. | Mae angen tystiolaeth arnom i ddangos na fydd y cyrsiau yn cael eu cyfyngu i'r prif ganolfannau trefol yn unig. Rhaid i chi ddangos eich bod wedi ystyried y goblygiadau teithio a fydd yn wynebu troseddwyr o ardaloedd gwledig ac wedi datblygu ffordd o sicrhau bod cyrsiau ar gael ym mhob rhan o'r rhanbarth. Gall hyn gynnwys manylion y lleoliadau lle rydych yn bwriadu cynnal y cwrs (gweler isod). |
| 2.6 Byddant yn defnyddio dull cydnabyddedig o werthuso'r cwrs a'r hyfforddwyr (fel model gwerthuso hyfforddiant pedair lefel Kirkpatrick[4]) er mwyn cadarnhau o leiaf y cafwyd Adwaith (lefel 1) a bod Dysgu (lefel 2) wedi digwydd, gan ddangos bod pob troseddwr wedi meithrin dealltwriaeth sylfaenol. | Polisïau, prosesau a gweithdrefnau perthnasol, yn ogystal â syniad clir o'r dystiolaeth a gaiff ei darparu i'w harchwilio er mwyn dangos sut y gall y sefydliad werthuso'r graddau y mae'n llwyddo i gyflawni'r deilliannau dysgu dymunol a myfyrio ar hynny.<br><br>Manylion bod gan y sefydliad adnodd gwerthuso. Byddai cynnyrch adnodd o'r fath yn un o'r ffrydiau gwybodaeth allweddol y byddai Darparwr y Cwrs a Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i fonitro perfformiad yn barhaus. Felly, ar gam cymeradwyo'r cwrs, byddai datganiad bod proses ar waith, ynghyd ag amlinelliad ohoni, yn ddigonol. Fodd bynnag, dylid cefnogi hyn drwy roi syniad clir o'r dystiolaeth a gaiff ei darparu i'w harchwilio er mwyn dangos y defnyddir ac y cydymffurfir â’r broses. |
| **Cyfleusterau a Hyfforddwyr (fel y nodir yn Adran 3 o'r Ffurflen Gais)** | |
| Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r canlynol: | Byddai tystiolaeth briodol yn cynnwys: |

| | |
|---|---|
| 3.1 Maent yn cyflogi, neu'n gallu defnyddio, digon o hyfforddwyr â chymwysterau addas i ddarparu'r cwrs arfaethedig i safon briodol yn gyson.<br><br>D.S. Nid yw'n ofyniad ffurfiol y dylai pob aelod o staff allu dangos bod ganddo'r ystod lawn o gymwyseddau sydd eu hangen i ddarparu cyrsiau o dan y Cynllun. Er enghraifft, gellir cyflogi unigolion i ddarparu elfennau penodol o'r maes llafur e.e. gwybodaeth am ystadegau damweiniau. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i ymgeiswyr egluro sut y byddant yn defnyddio staff unigol er mwyn sicrhau bod holl ofynion y maes llafur yn cael eu bodloni.<br><br>Nid oes angen darparu enwau'r hyfforddwyr chwaith, dim ond eu cymwysterau/profiad perthnasol. | Manylion POB hyfforddwr, cymwysterau a phrofiad perthnasol. Dylai hyfforddwyr unigol allu darparu'r canlynol:<br><br>• tystiolaeth o achrediad ffurfiol e.e. cymhwyster NVQ lefel 3 (neu uwch) perthnasol e.e:<br>    • Tystysgrif Lefel 3 Ascentis mewn Deall Camddefnyddio Sylweddau<br>    • Dyfarniad a Thystysgrif BTEC Edexcel mewn Gweithio gyda Chamddefnyddio Sylweddau ar lefelau 3 a 4<br>    • Dyfarniad a Thystysgrif City & Guilds mewn Gweithio gyda Chamddefnyddio Sylweddau ar lefelau 3 a 4.<br>    • Dyfarniad Cyfiawnder Cymunedol City & Guilds mewn Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol<br>    • Diploma Lefel 3 y Brifysgol Agored/Ffederasiwn Gweithwyr Cyffuriau ac Alcohol Proffesiynol (FDAP) mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Arbenigedd Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau)<br><br>Neu dystiolaeth o brofiad blaenorol perthnasol e.e.<br><br>    • aelodaeth broffesiynol ffurfiol berthnasol e.e. FDAP<br>    • profiad blaenorol sylweddol o gynnal rhaglenni newid ymddygiad, er enghraifft, yng nghyd-destun nyrsio, cyfiawnder troseddol, gofal cymdeithasol, gwaith ieuenctid, prawf neu gwnsela<br>    • tystiolaeth eu bod yn gweithio tuag at achrediad ffurfiol gan gorff dyfarnu neu gorff proffesiynol priodol<br>    (Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr) |

| | |
|---|---|
| | Yn ogystal â chymwyseddau ffurfiol sy'n gysylltiedig ag alcohol a newid ymddygiad, dylai staff fod yn gyfarwydd hefyd ag amcanion safon gyrru'n ddiogel ac yn gyfrifol (Safe and Responsible Driving Standard™) yr Asiantaeth Safonau Gyrru http://www.dft.gov.uk/publications/dsa-safe-responsible-driving-categoryb-standard.<br><br>Bob tro y darperir cwrs, dylai tystiolaeth ddangos bod o leiaf un unigolyn cymwysedig yn goruchwylio'r cwrs o'r dechrau i'r diwedd.<br><br>Byddem yn disgwyl y byddai modd i ni wirio cymwysterau a/neu brofiad perthnasol yr unigolion sy'n darparu'r cwrs bob tro y cynhelir archwiliad. Byddai'r gwiriad hwnnw yn edrych ar (i) y cymwysterau a/neu'r profiad perthnasol sydd gan unigolyn a (ii) yn fwy penodol, p'un a yw'r cwrs sy'n cael ei archwilio yn cael ei staffio'n ddigonol ac yn briodol. |
| 3.2 Mae ganddynt gynlluniau digonol ar waith i sicrhau diogelwch pob aelod o staff sy'n ymwneud â darparu'r cyrsiau ac ateb y galw ym mhob ardal ddaearyddol benodedig a nodir yn eu cais. | Byddai tystiolaeth briodol yn cynnwys:<br><br>Gweithdrefnau ar gyfer defnyddio staff. Mae'r gofynion o ran staff yn berthnasol i'r ddarpariaeth ar draws yr ardal ddaearyddol (ardaloedd daearyddol) y rhoddir cymeradwyaeth ar ei chyfer (eu cyfer).<br><br>Noder: Mae cyfrifoldeb penodol o ran diogelwch staff a rheoli risg. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn nodi: “People who deal directly with the public may face aggressive or |

| | |
|---|---|
| | violent behaviour. They may be sworn at, threatened or even attacked." O dan Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 rhaid i gyflogwyr asesu'r risgiau i gyflogeion a gwneud trefniadau i warchod eu hiechyd a'u diogelwch drwy wneud y canlynol:<br>• cynllunio'n effeithiol<br>• trefnu'n effeithiol<br>• rheoli'n effeithiol<br>• monitro ac adolygu'n effeithiol<br><br>Noder: Yn y cyd-destun hwn, tybir y bydd gan bob sefydliad hyfforddi bolisïau a chanllawiau ar sut i ddelio ag ymddygiad ymosodol neu dreisgar ac y gall roi syniad clir o'r dystiolaeth a gaiff ei darparu i'w harchwilio er mwyn dangos ei fod yn gyfarwydd â'r polisïau a'r canllawiau perthnasol a bod ganddo wybodaeth a dealltwriaeth ohonynt. Mae'n bwysig bod hyfforddwyr yn deall pa gamau y gallant eu cymryd i amddiffyn eu hunain ac eraill, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion a therfynau cyfreithiol a rheoliadol. |
| 3.3 Mae ganddynt fynediad at safleoedd sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau iechyd a diogelwch perthnasol, sy'n addas at ddibenion dysgu ac sy'n rhoi lefelau priodol o gyfrinachedd i bawb sy'n cymryd rhan, ac sy'n ddigonol i ateb y galw ym mhob ardal benodedig a nodir yn eu cais. | Manylion lleoliadau darparu, amserlenni cyrsiau a'r staff a neilltuir i'r amserlenni hynny. Yn amlwg, gall darparwr amrywio'r staff a neilltuir yn unol â'r amgylchiadau o ddydd i ddydd, ond mae angen i ni fod yn fodlon bod digon o staff ar gael i gyflwyno'r ddarpariaeth a gymeradwyir. |

| | |
|---|---|
| | Manylion y prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd ac ati. |
| 3.4 Mae prosesau ar waith i sicrhau bod y staff i gyd yn:<br><br>• deall eu dyletswydd gofal a therfynau eu cymhwysedd, mewn perthynas ag unigolion sy'n gofyn am ragor o gymorth neu sy'n cyflwyno tystiolaeth eu bod yn yfed mewn ffordd niweidiol neu'n ddibynnol ar alcohol ac a allai gael budd o gymorth meddygol<br><br>• gwybod sut i roi arweiniad i unigolion sy'n gofyn am ragor o gymorth. | Byddai tystiolaeth briodol yn cynnwys:<br><br>Datganiad o bolisïau a gweithdrefnau, fel y'u rhoddir i staff hyfforddi fel rhan o'u proses sefydlu ac ati mewn perthynas â'u 'dyletswydd gofal'. Byddem hefyd yn disgwyl gweld enghreifftiau o unrhyw daflenni neu ddeunyddiau cyfarwyddyd a ddefnyddir, yn ogystal â syniad clir o'r dystiolaeth a gaiff ei darparu i'w harchwilio er mwyn dangos y dilynir ac y cydymffurfir â'r polisïau a'r gweithdrefnau.<br><br>Noder: Amcan y Cynllun yw newid ymddygiad o ran defnyddio alcohol mewn perthynas â gyrru, nid atal unigolion rhag yfed alcohol. Fodd bynnag, mae gan y darparwyr, a Llywodraeth Cymru, ddyletswydd gofal mewn perthynas â'r unigolion hynny sy'n dilyn y broses. Mae'r ddyletswydd honno'n golygu y dylent ymateb yn briodol i geisiadau am fwy o gymorth neu arweiniad neu awgrymu bod unigolyn yn ceisio arweiniad pan fo arwyddion clir y gall fod ganddo broblem sylfaenol fwy difrifol. |
| **Trefniadau Gweinyddol (fel y nodir yn Adran 4 o'r Ffurflen Gais)** | |
| Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:<br><br>4.1 Mae ganddynt brosesau ar waith i dderbyn cwynion gan gwsmeriaid ac ymateb iddynt | Byddai tystiolaeth briodol yn cynnwys:<br><br>Proses a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion, gan gynnwys gwybodaeth a roddir i gyfranogwyr cyrsiau fel mater o drefn. Dylai'r deunyddiau hyn nodi sut y gall unigolyn wneud |

| | |
|---|---|
| | cwyn, amserlenni'r sefydliad ar gyfer ymateb i gŵyn ac unrhyw gamau eraill y gallant eu cymryd os ydynt yn dal yn anfodlon.<br><br>Noder: Fel egwyddor gyffredinol, ni fyddai Llywodraeth Cymru am gymryd rhan mewn unrhyw gamau cynnar i ymdrin â chwynion. Fodd bynnag, fel y corff achredu, ni sydd â'r sancsiwn eithaf. Felly, dylai'r wybodaeth a ddarperir hefyd nodi'n glir o dan ba amgylchiadau y gallai Llywodraeth Cymru chwarae rôl, fel y nodir yn y Canllawiau i Ddarparwyr Cyrsiau yn adran 3.57. |
| Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:<br><br>4.2 – 4.11 Mae ganddynt brosesau ar waith i wneud y canlynol;<br><br>• Cofnodi nifer y troseddwyr a gaiff eu hatgyfeirio o'r llysoedd<br>• Cofnodi nifer y troseddwyr atgyfeiriedig sydd wedi trosglwyddo o un darparwr cwrs i un arall<br>• Cofnodi canran y troseddwyr atgyfeiriedig sy'n dechrau'r cwrs<br>• Nodi nifer y troseddwyr atgyfeiriedig sy'n cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus<br>• Nodi'r rhesymau y mae troseddwyr atgyfeiriedig yn eu rhoi dros adael y cwrs cyn iddo orffen<br>• Cofnodi nifer yr 'adroddiadau eithrio' a gaiff eu cyflwyno, eu cymeradwyo a'u gwrthod<br>• Cofnodi nifer yr eithriadau cymeradwy fel canran o'r Tystysgrifau Cwblhau<br>• Cofnodi canfyddiadau gwaith i werthuso cyrsiau a | Byddai tystiolaeth briodol yn cynnwys:<br><br>Datganiad o gydymffurfiaeth sy'n dangos y bydd y sefydliad yn sicrhau bod prosesau addas ar waith. Byddem yn disgwyl i dystiolaeth gael ei darparu i'w harchwilio er mwyn dangos y dilynir ac y cydymffurfir â'r prosesau, ac i ddangos bod gwybodaeth y gofynnir amdani fel rhan o adroddiadau data ac adroddiadau ariannol chwarterol a blynyddol yn cael ei darparu'n gywir ac yn amserol.<br><br>Bydd y data hyn yn rhan allweddol o'r wybodaeth reoli a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Byddant yn helpu i fonitro perfformiad ac yn helpu i lywio unrhyw archwiliadau a arweinir gan wybodaeth. Gallant hefyd fod yn werthfawr at ddibenion ymchwil a gwerthuso. |

| | |
|---|---|
| hyfforddwyr a chamau gweithredu cysylltiedig, a llunio crynodeb ohonynt<br>• Sicrhau bod pob cofnod o'r fath yn cael ei gadw'n gywir ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.<br>• Sicrhau y bydd y data a gesglir drwy'r prosesau hyn yn cael eu cadw a'u trin yn unol â gofynion deddfwriaeth Diogelu Data. | |

[1] Cynghorir ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r modelau damcaniaethol a phroffesiynol sy'n sail i Faes Llafur y Cynllun e.e. Prochaska, JO; DiClemente, CC. Toward a comprehensive model of change. Yn: Miller, WR; Heather, N. (golygyddion) Treating addictive behaviors: processes of change. Efrog Newydd: Plenum Press; 1986. t. 3–27.
Ffederasiwn Gweithwyr Cyffuriau ac Alcohol Proffesiynol (FDAP) - http://www.fdap.org.uk/code_of_practice.php;
Modelau gofal i bobl sy'n camddefnyddio alcohol (MoCAM) -
http://www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/@dh/@en/documents/digitalasset/dh_4136809.pdf;
Model Rheoli Troseddwyr NOMS - Canllawiau ar Ymyriadau Alcohol - http://www.alcoholpolicy.net/2010/02/noms-alcohol-interventions-guidance-.html;
Modelau gofal i bobl sy'n camddefnyddio alcohol (MoCAM) -
http://www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/@dh/@en/documents/digitalasset/dh_4136809.pdf; Model Rheoli Troseddwyr NOMS - Canllawiau ar Ymyriadau Alcohol - http://www.alcoholpolicy.net/2010/02/noms-alcohol-interventions-guidance-.html

[2] Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933.

[3] Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn derbyn bod oedran cronolegol 65 yn golygu'r 'henoed' neu 'berson hŷn'.

[4] Kirkpatrick D, (1994) Evaluating Training Programmes. Berret-Koehler Publishers Inc.